# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 5 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(20)

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 5 a 10 gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**14.15**
**2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol**

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 4 a gofynnwyd cwestiwn 6. Ni ofynnwyd cwestiwn 5.

**14.30**
**3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Comisiynydd y Gymraeg**

**14.47**
**Cynnig Trefniadol**

Cafwyd cynnig trefniadol gan Dafydd Elis-Thomas yn unol â Rheol Sefydlog 12.32 i ohirio'r ddadl fer.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**14.47**
**4. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn. Cafodd Cwestiynau 1, 2, 4, 7 ac 8 eu hateb gan Angela Burns. Cafodd Cwestiynau 3, 5 a 9 eu hateb gan Sandy Mewies. Cafodd Cwestiwn 6 ei ateb gan Peter Black. Cafodd Cwestiwn 10 ei ateb gan Rhodri Glyn Thomas.

**15.18**
**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4816 William Graham (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod mwy o bobl yn cael diagnosis o ganser;

2. Yn mynegi pryder bod amseroedd aros targed ar gyfer cleifion canser yn cael eu methu; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Cronfa Cyffuriau Canser Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 1, ar ôl "ganser", rhoi ", i raddau helaeth oherwydd bod y boblogaeth hŷn yn tyfu a bod ein technegau diagnosis yn llawer gwell erbyn hyn."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 11 | 1 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2, a rhoi yn ei le: "Yn nodi bod angen sicrhau bod amseroedd aros i rai cleifion canser yn fyrrach, ac yn cydnabod y gwaith sy'n parhau i fynd i'r afael â hyn."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 16 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Ni chafodd gwelliant 4 ei ddewis gan fod gwelliant 3 wedi'i dderbyn.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4816 William Graham (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod mwy o bobl yn cael diagnosis o ganser, i raddau helaeth oherwydd bod y boblogaeth hŷn yn tyfu a bod ein technegau diagnosis yn llawer gwell erbyn hyn;

2. Yn nodi bod angen sicrhau bod amseroedd aros i rai cleifion canser yn fyrrach, ac yn cydnabod y gwaith sy'n parhau i fynd i'r afael â hyn; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**16.21**
**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4817 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod y system gynllunio yn hanfodol ar gyfer economi gref, amgylchedd deniadol a chynaliadwy a democratiaeth lwyddiannus; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Cyflwyno Bil Cynllunio Cymru yn gynharach na'r hyn a nodir yn y Datganiad Deddfwriaethol;

b) Cynyddu hyblygrwydd system gynllunio Cymru;

c) Symleiddio canllawiau cynllunio presennol Cymru;

d) Cynyddu cyfraniad cymunedau lleol at y system gynllunio.

Gellir gweld copi o'r Datganiad Deddfwriaethol drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=219617&ds=7%2F2011#dat2

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi Datganiad Ysgrifenedig Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i'r Cabinet, a anfonwyd drwy e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 30 Medi, yn sefydlu panel cynghori annibynnol i roi cyngor ar sut y dylid cynnal gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol, a fydd yn llywio'r Papur Gwyn Cynllunio a'r Mesur dilynol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 16 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r system gynllunio hefyd ystyried Cynllun Gofodol Cymru a'r system cynlluniau datblygu lleol.

Gellir gweld Cynllun Gofodol Cymru drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://wales.gov.uk/location/strategy/spatial/documents/?skip=1&lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 27 | 54 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4817 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod y system gynllunio yn hanfodol ar gyfer economi gref, amgylchedd deniadol a chynaliadwy a democratiaeth lwyddiannus; a

2. Yn nodi Datganiad Ysgrifenedig Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i'r Cabinet, a anfonwyd drwy e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 30 Medi, yn sefydlu panel cynghori annibynnol i roi cyngor ar sut y dylid cynnal gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol, a fydd yn llywio'r Papur Gwyn Cynllunio a'r Mesur dilynol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 5 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.26**
**7. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4818 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at ddiffyg manylion a thargedau ystyrlon yn y Rhaglen Lywodraethu: a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Rhaglen yn canolbwyntio ar y sialensiau y bydd yr economi yn eu hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Gellir gweld y Rhaglen Lywodraethu drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/?skip=1&lang=cy

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 27 | 54 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1) a rhoi yn ei le:

"Yn nodi'r Rhaglen Lywodraethu a'r angen i allu mesur sut y gweithredir polisi'r Llywodraeth"; a

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 27 | 54 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 1 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio ei Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â'r sialensiau economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu pobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 27 | 54 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni addewid y Prif Weinidog ar gyfer rhaglen lywodraethu sydd â thargedau mesuradwy.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 27 | 54 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen lywodraethu ddiwygiedig sydd â thargedau pendant a mesuradwy ac amserlen ar gyfer eu cyflawni.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 27 | 54 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailgyhoeddi ei Rhaglen Lywodraethu er mwyn cynnwys targedau a chanlyniadau mesuradwy.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 27 | 54 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i bennu, yn y Rhaglen Lywodraethu, fesurau i godi perfformiad Gwerth Ychwanegol Crynswth Cymru erbyn 2015.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r Rhaglen Lywodraethu gynnwys rhaglen gynhwysfawr o ryddhad ardrethi busnes sef yr ymyriad polisi gorau i hybu cyflogaeth a buddsoddiad yn y sector preifat ac y gellid cyflwyno ymyriad o'r fath ar unwaith heb yr angen am adolygiad pellach.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 5 | 38 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthhod y gwelliannau i'r cynnig, nid yw'r cynnig wedi ei gymeradwyo.**

**18.21**
**Cyfnod pleidleisio**

**8. Dadl Fer**

**NDM4815 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):**

Diwygo Amodau Deiliadaeth y Sector Rhentu Preifat

Cafodd y Ddadl Fer ei gohirio gan gynnig trefniadol yn gynharach yn nhrafodion y dydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.29

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mawrth, 11 Hydref 2011**